



# Pecyn cyflwynydd y cwis

**Yn cynnwys:**

- Sgript y cyflwynydd
- Cwestiynau ac atebion y cwis
- Syniadau hwyliog am ragor o rowndiau

**Helo – a chroeso i becyn cyflwynydd y cwis! Y bwriad yw sicrhau bod *Noson y Cwis Mawr* yn hwyl ac yn hawdd i chi.**

# Sgript cyflwynydd y cwis

***Os hoffech chi, gallwch ddefnyddio'r sgript isod fel canllaw i'ch helpu i gyflwyno'r cwis. Cewch ei darllen air am air, addasu tipyn arni, neu wneud rhywbeth hollol wahanol – penderfynwch chi! Cyn dechrau, gofalwch fod pawb yn gallu'ch gweld a'ch clywed. I ffwrdd â chi!***

**Croeso**
Noswaith dda a croeso i *Noson y Cwis Mawr* 2026!

**[Eich enw chi yma]** ydw i a fi fydd yn cadw trefn ar y cwis arbennig 'ma heno! Dw i mor falch eich bod chi wedi ymuno â ni – dw i'n siŵr y cawn ni noson wych.

Heno, rydyn ni'n rhan o rywbeth arbennig. Ledled Prydain, mae cannoedd o eglwysi a miloedd o bobl yn gwneud yr un peth â ni – dod at ei gilydd i gefnogi achos ardderchog.

Mae Tearfund yn gweithio gyda dros 3.3 miliwn o bobl fwyaf anghenus y byd i'w helpu nhw i gamu allan o dlodi, am byth. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy rannu cariad Duw, helpu pobl sydd mewn angen mawr i gael bwyd, dŵr glân a diogelwch, ac yna, gyda'n gilydd, rydyn ni'n eu helpu i ddysgu sgiliau, gwneud bywoliaeth a datblygu cymunedau cryfach.

Mae'r gwaith hollbwysig hwn yn dibynnu ar ddigwyddiadau fel hyn a phobl fel chi.

***Sylwch: Chwaraewch y fideo  Introduction to Transforming Communities o'r pecyn adnoddau. Mae'n esbonio mwy am y ffordd mae Tearfund yn gweithio ledled y byd.***

Mae'r cwis yn cynnwys **[nodwch faint o rowndiau rydych wedi penderfynu eu gwneud]** rownd o gwestiynau, ac mae wyth cwestiwn ym mhob un. Dyma'r themâu **[gallwch ddileu neu ychwanegu rhai yn ôl yr angen]**: Lleoliadau mewn Llyfrau a Ffilmiau, 'P'un yw'r eithriad?' – Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Beth sydd yn y Gegin?, Crwydro'r Byd, Logo-mania, Dywediadau Difyr, Adolygiad o'r Flwyddyn (2025), O'r Beibl neu o Lyfr?, Adnabod Anifeiliaid, Gwybodaeth Gyffredinol a Cwestiynau mewn Caneuon.

Gawn ni egwyl fach hanner ffordd drwy'r cwis. Ond cyn hynny, wnawn ni wylio ffilm am waith Tearfund yn Uganda. Gawn ni gwrdd â Natalina sy'n byw yn Uganda gyda'i gŵr a phump o ferched. Dydi bywyd ddim wedi bod yn hawdd, ond diolch i'ch cefnogaeth chi a help gan bartner Tearfund CAFRAHD, mae pethau wedi dechrau newid i Natalina a'i theulu.

Bydd pob ceiniog a godwn ni heno'n mynd i drawsnewid cymunedau a helpu i ddod â thlodi eithafol i ben. Rhowch fel y gallwch chi. Gallwch gyfrannu trwy fynd i'n tudalen JustGiving ***[darllenwch yr URL / dangoswch y cod QR].***

Diolch. Nawr 'te, ymlaen â'r cwis. Dyma ni – Rownd Un!

***Sylwch: Ar ôl pob rownd, rhowch amser i'r timau gyfnewid eu taflenni atebion neu eu marcio eu hunain a chyhoeddi eu sgôr. Mae croeso i chi gyhoeddi'r sgorau wrth fynd ymlaen yn ystod y cwis os liciwch chi.***

**Egwyl hanner amser**
Nawr, gawn ni wybod yn iawn pam rŷn ni yma heno. Cyn yr egwyl, gawn n i glywed stori Natalina i'n hatgoffa ni pam rŷn ni'n gwneud hyn. Wna i rannu'r ddolen i'n tudalen JustGiving â chi nawr a'ch annog i roi'n hael os gallwch chi. Bydd unrhyw swm, bach neu fawr, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl sy'n byw mewn angen difrifol.

**Gwylio ffilm am waith Tearfund yn Uganda**
Roedd clywed stori Natalina a dysgu sut rydych chi'n helpu i newid bywydau pobl sydd mewn angen wir yn ysbrydoliaeth. Gawn ni egwyl fer nawr. Cerwch i nôl bwyd a diod **[os oes ar gael]**, ewch am dro bach i stretsho'ch coesau, a pheidiwch â chael eich temtio i gladdu'ch trwyn yn Wikipedia! Welwn ni chi yn ôl yma ymhen **[10 munud / chwarter awr]**.

**Yr ail hanner**
Croeso nôl, bawb! Gobeithio'ch bod chi wedi mwynhau'r egwyl a'n barod am weddill y cwis. Tra byddwch chi'n setlo, dw i'n falch iawn o ddweud bod ein cwis ni wedi llwyddo i godi **£[xxx]** hyd yma – gwych! Diolch o galon! Os nad ydych chi wedi gwneud hynny'n barod, efallai yr hoffech chi roi rhodd i'r achos ardderchog hwn.

Reit, dyma'r rownd nesaf!

**Diwedd y cwis**
A dyna ddiwedd y cwestiynau! Wnawn ni gyfri'r sgorau'n sydyn a dod nôl atoch chi yn y funud.

**Y sgorau**
***Sylwch: Chi sydd i benderfynu a ydych chi'n enwi'r timau i gyd yn eu trefn neu ddim ond y tri uchaf, fel isod.***

Wel, wna i ddim o'ch cadw chi ar bigau'r drain. Dyma'r sgorau. Drumroll plis... Yn drydydd, mae **[enw'r tîm]**. Da iawn, chi!

Yn ail, **[enw'r tîm]**. Da iawn, mor agos ...!

Ac yn gyntaf, yr enillwyr heno yw: **[enw'r tîm]**! Llongyfarchiadau!

Da iawn, bawb. Rhowch glap i chi'ch hunain. Mae pawb wedi gwneud ymdrech ardderchog!

Rŷn ni mor ddiolchgar eich bod wedi dod heno. Gobeithio'ch bod wedi cael noson wych. Diolch i'ch haelioni chi, rŷn ni wedi codi **£[xxx]** hyd yma. Mae'n mynd i wneud gwahaniaeth enfawr i lawer o bobl o gwmpas y byd, pobl fel Natalina. Gallwch chi gyfrannu at Tearfund eto drwy fynd i'n tudalen JustGiving **[darllenwch yr URL / dangoswch y cod QR]**.

Diolch am ymuno â ni heno. Tan tro nesa, hwyl!

# Cwestiynau'r cwis

## 1 Lleoliadau mewn Llyfrau a Ffilmiau

1. Ym mha brifddinas yn Nwyrain Asia y mae'r ffilm *Parasite*, a enillodd Oscar yn 2019, wedi'i lleoli?

2. "Yr oedd yr haf yn doreithiog yn Nyffryn Aerwen y flwyddyn honno." Brawddeg gyntaf pa nofel boblogaidd o'r 1950au yw honna?

3. Oddi ar arfordir pa wlad yng Nghanolbarth America y mae Isla Nublar, yr ynys fach ffuglennol y sonnir amdani yn nefnyddiau *Jurassic Park*?

4. Ym mha ddinas ym Mhennsylvania yn yr Unol Daleithiau y mae'r 'Rocky Steps', a wnaed yn enwog gan y ffilm *Rocky*?

5. Pa ynys Roegaidd yn y Môr Aegeaidd oedd prif leoliad ffilmio *Mamma Mia!* yn 2008?

6. Yn *The Lord of the Rings*, beth yw enw'r ardal wledig braf oedd yn gartref i'r Hobitiaid (Hobbits)?

7. Yn straeon Sherlock Holmes, beth yw cyfeiriad cartref y ditectif enwog yng nghanol Llundain?

8. Un o ble yw Effi yn y ffilm Gymraeg sydd newydd gael ei rhyddau ac wedi cael canmoliaeth fawr?

## 2 'P'un yw'r eithriad?' – Gwyddoniaeth a Thechnoleg

1. Pa un o'r rhain sydd ddim yn nwy nobl?
   A: Heliwm B: Neon C: Nitrogen D: Argon.

2. Pa un o'r platfformau cyfryngau cymdeithasol hyn chafodd ddim o'i sefydlu rhwng 2000 a 2009?
   A: Facebook B: Twitter C: Instagram D: TikTok

3. Pa un o'r rhain sydd ddim yn asgwrn yn ein clustiau?
   A: Gwarthol (Stirrup) B: Eingion (Anvil)
   C: Morthwyl (Hammer) D: Tibia


4. Pa un o'r rhain oedd ddim yn wennol ofod gan NASA?
   A: Discovery B: Apollo C: Challenger
   D: Endeavour

5. Pa un o'r ieithoedd rhaglennu hyn sydd ddim wedi'i henwi ar ôl person neu em?
   A: Ruby B: Perl C: Python D: Pascal


6. Pa un o'r rhain sydd ddim yn famal?
   A: Morfil B: Platypus
   C: Siarc Mawr Gwyn D: Ystlum

7. Pa un o'r rhain sydd ddim yn borwr gwe?
   A: Chrome B: Firefox C: Linux D: Safari

8. Pa un o'r rhain sydd ddim yn fath o gwmwl?
   A: Cirrus B: Cumulus C: Stratus D: Ignis
   Ateb D: Ignis – Y gair Lladin am dân



# Cwestiynau'r cwis



## 3 Beth sydd yn y Gegin?

1. Ar wahân i wyau, beth yw'r prif gynhwysyn, startshlyd, mewn omled Sbaenaidd traddodiadol
2. Pa ddiod sy'n cael ei gwneud o ddail y planhigyn Camellia sinensis, a dyfir yn aml yn Asia?
3. Pa ffrwyth, sy'n cael ei alw'n Frenin y Ffrwythau yn Ne-ddwyrain Asia, sy'n enwog am ei arogl cryf iawn?
4. Beth yw'r organeb ungellog sy'n gwneud i fara godi?
5. Cryfder pa lysieuyn sy'n cael ei fesur ag unedau Scoville?
6. Pa sbeis cyffredin yn y gegin sy'n dod o risgl mewnol coeden, wedi'i sychu?
7. Os ydych yn torri llysieuyn yn 'juliennes', pa siâp ydyn nhw? Tebyg i bethau bach tanllyd a gedwir mewn bocs.
8. Beth yw'r sbeis drutaf yn y byd yn ôl pwysau?

## 4 Crwydro'r Byd

Allwch chi enwi'r nodweddion amlwg sydd yn y lluniau hyn?

## 5 Logo-mania

Yn yr her weledol hon, sawl un o'r cwmnïau rydych chi'n eu nabod wrth eu logos a ddangosir yn rhannol ac mewn du a gwyn?

## 6 Dywediadau Difyr

Llanwch y bylchau yn y dywediadau cyfarwydd hyn.

1. 'Gwlad yn llifeirio o laeth a...'
2. 'Gweithio fel lladd...'
3. 'Nid chwarae yw chwarae â...'
4. 'Gwneud môr a ... o rywbeth'
5. 'Yr eithriad sy'n profi'r...'
6. 'Rhoi'r ffidil yn y...'
7. 'Tynnu'r gwynt o...rhywun'
8. 'Prynu cath mewn..'

# Cwestiynau'r cwis



## 7 Adolygiad o'r Flwyddyn (2025)

1. Ym mha ddinas yn y Swistir y cynhaliwyd yr Eurovision Song Contest 2025?
2. Pa wlad yn Ne Asia a lwyddodd i basio Japan yn swyddogol yn 2025 a dod yn drydedd yn y rhestr o economïau mwyaf y byd?
3. Ble cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2025?
4. Pa dîm enillodd ornest Super Bowl LIX ym mis Chwefror 2025, y Philadelphia...?
5. Yn 2025, rhyddhaodd y Bathdy Brenhinol ddarn arian arbennig ar thema pa gêm fwrdd enwog?
6. Pwy oedd Prif Weinidog Cymru drwy gydol 2025?
7. Yn 2025, pa wlad yn Sgandinafia oedd y gyntaf yn y byd, yn swyddogol, i fod â mwy o gerbydau trydan na cheir petrol ar y ffordd?
8. Pa gantores enillodd wobr Albwm y Flwyddyn am y tro cyntaf yn y Grammys 2025 am *Cowboy Carter*?

## 8 O'r Beibl neu o Lyfr?

Ydi'r *union* eiriau hyn yn digwydd yn y Beibl, neu ai teitlau llyfrau ydyn nhw?

1. 'Saith pechod marwol'
2. '...nid oes dim newydd dan yr haul.'
3. '...a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad.'
4. 'Bedydd tân'
5. 'Eira gwyn yn Salmon'
6. 'A newidia ... y llewpard ei frychni?'
7. 'Y stafell ddirgel'
8. 'Halen y ddaear.'

## 9 Adnabod Anifeiliaid

1. Pa famal yw'r unig un sy'n gallu hedfan go iawn am dipyn o amser?
2. Sawl calon sydd gan octopws?
3. Pa aderyn bychan yw'r unig un sy'n gallu hedfan am yn ôl?
4. Beth yw'r rhywogaeth fwyaf o siarc sy'n byw yn ein moroedd ar hyn o bryd?
5. Ym mha rywogaeth o bysgod, a enwir ar ôl mamal tir, mae'r gwryw, yn hytrach na'r fenyw, yn cario'r wyau ac yn geni'r rhai bach?
6. Pa enw arall a roddir i haid o foch?
7. Pa anifail tir sydd â'r beichiogrwydd hiraf, tua 22 mis?
8. Pa aderyn Affricanaidd sy'n methu hedfan ac mae ei lygaid yn fwy na'i ymennydd?

# Cwestiynau'r cwis

## 10 Gwybodaeth Gyffredinol

1. Sawl lliw sydd mewn enfys arferol, yn ôl Isaac Newton?
2. Ym mha flwyddyn y syrthiodd Mur Berlin, gan nodi trobwynt ar ddiwedd y Rhyfel Oer?
3. Pa nwy tŷ gwydr mae planhigion yn ei amsugno o'r atmosffer ar gyfer ffotosynthesis?
4. Pa un yw'r wlad leiaf yn y byd o ran arwynebedd tir?
5. Beth yw'r unig fetel sy'n hylif ar dymheredd ystafell?
6. Pa un yw'r unig dalaith yn UDA sy'n cynnwys dim ond ynysoedd?
7. Yn y gêm fwrdd glasurol Monopoly, pa un yw'r unig sgwâr ar y bwrdd y gall chwaraewr lanio arno ond nad yw'n cael aros arno?
8. Pa un yw'r unig organ yn y corff dynol sy'n gallu adffurfio ei hunan yn naturiol, hyd yn oed os bydd hyd at 75 y cant ohoni wedi cael ei dynnu?

## ★ Rownd Bonws
## Cwestiynau mewn Caneuon

Pwy sy'n enwog am ganu'r caneuon sy'n cynnwys y cwestiynau hyn?

1. '...ai am fod nos yn bygwth / Rhoi terfyn ar antur y dydd?'
2. 'Wyt ti'n cofio braf oedd nosweithiau'r haf / Pan oeddan ni yn chwarae yng ngolau'r stryd...?'
3. 'How soon is now?'
4. 'Did you write the book of love, and do you have faith in God above?'
5. 'Wyt ti'n dal i weld cysgodion yn y nos?'
6. 'Isn't it ironic... don't you think?'
7. 'Who's afraid of little old me?'
8. 'Pwy wnaeth y pysgod chwim...?



# Atebion y cwis

## 1 Lleoliadau mewn Llyfrau a Ffilmiau

1. **Ym mha brifddinas yn Nwyrain Asia y mae'r ffilm *Parasite*, a enillodd Oscar yn 2019, wedi'i lleoli?**
   Ateb: Seoul

2. **"Yr oedd yr haf yn doreithiog yn Nyffryn Aerwen y flwyddyn honno." Brawddeg gyntaf pa nofel boblogaidd o'r 1950au yw honna?**
   Ateb: *Cysgod y Cryman gan Islwyn Ffowc Elis*

3. **Oddi ar arfordir pa wlad yng Nghanolbarth America y mae Isla Nublar, yr ynys fach ffuglennol y sonnir amdani yn nefnyddiau *Jurassic Park*?**
   Ateb: Costa Rica

4. **Ym mha ddinas ym Mhennsylvania yn yr Unol Daleithiau y mae'r 'Rocky Steps', a wnaed yn enwog gan y ffilm *Rocky*?**
   Ateb: Philadelphia

5. **Pa ynys Roegaidd yn y Môr Aegeaidd oedd prif leoliad ffilmio *Mamma Mia!* yn 2008?**
   Ateb: Skopelos

6. **Yn *The Lord of the Rings*, beth yw enw'r ardal wledig braf oedd yn gartref i'r Hobitiaid (Hobbits)?**
   Ateb: Y Sir / The Shire

7. **Yn straeon Sherlock Holmes, beth yw cyfeiriad cartref y ditectif enwog yng nghanol Llundain?**
   Ateb: 221B Baker Street

8. **Un o ble yw Effi yn y ffilm Gymraeg sydd newydd gael ei rhyddau ac wedi cael canmoliaeth fawr?**
   Ateb: Blaenau Ffestiniog – *Effi o Blaenau*

## 2 'P'un yw'r eithriad?' – Gwyddoniaeth a Thechnoleg

1. **Pa un o'r rhain sydd ddim yn nwy nobl?**
   **A: Heliwm B: Neon C: Nitrogen D: Argon.**
   Ateb C: Nitrogen

2. **Pa un o'r platfformau cyfryngau cymdeithasol hyn chafodd ddim o'i sefydlu rhwng 2000 a 2009?**
   **A: Facebook B: Twitter C: Instagram D: TikTok**
   Ateb D: TikTok – Lansiwyd ddiwedd y 2010au

3. **Pa un o'r rhain sydd ddim yn asgwrn yn ein clustiau?**
   **A: Gwarthol (Stirrup) B: Eingion (Anvil)**
   **C: Morthwyl (Hammer) D: Tibia**
   Ateb D: Tibia – Asgwrn yn y goes yw tibia


4. **Pa un o'r rhain oedd ddim yn wennol ofod gan NASA?**
   **A: Discovery B: Apollo C: Challenger**
   **D: Endeavour**
   Ateb B: Apollo – Rhyw fath o raglen/capsiwl gan NASA oedd Apollo, nid gwennol ofod

5. **Pa un o'r ieithoedd rhaglennu hyn sydd ddim wedi'i henwi ar ôl person neu em?**
   **A: Ruby B: Perl C: Python D: Pascal**
   Ateb C: Python – cafodd ei henwi ar ôl y criw comedi Prydeinig, Monty Python's Flying Circus

6. **Pa un o'r rhain sydd ddim yn famal?**
   **A: Morfil B: Platypus**
   **C: Siarc Mawr Gwyn D: Ystlum**
   Ateb C: Siarc Mawr Gwyn – Pysgodyn yw hwn

7. **Pa un o'r rhain sydd ddim yn borwr gwe?**
   **A: Chrome B: Firefox C: Linux D: Safari**
   Ateb C: Linux – sy'n System Weithredu

8. **Pa un o'r rhain sydd ddim yn fath o gwmwl?**
   **A: Cirrus B: Cumulus C: Stratus D: Ignis**
   Ateb D: Ignis – Y gair Lladin am dân



# Atebion y cwis

## 3 Beth sydd yn y Gegin?

1. **Ar wahân i wyau, beth yw'r prif gynhwysyn, startshlyd, mewn omled Sbaenaidd traddodiadol**
   Ateb: Tatws

2. **Pa ddiod sy'n cael ei gwneud o ddail y planhigyn Camellia sinensis, a dyfir yn aml yn Asia?**
   Ateb: Te

3. **Pa ffrwyth, sy'n cael ei alw'n Frenin y Ffrwythau yn Ne-ddwyrain Asia, sy'n enwog am ei arogl cryf iawn?**
   Ateb: Durian

4. **Beth yw'r organeb ungellog sy'n gwneud i fara godi?**
   Ateb: Burum

5. **Cryfder pa lysieuyn sy'n cael ei fesur ag unedau Scoville?**
   Ateb: Pupur chili

6. **Pa sbeis cyffredin yn y gegin sy'n dod o risgl mewnol coeden, wedi'i sychu?**
   Ateb: Sinamon

7. **Os ydych yn torri llysieuyn yn 'juliennes', pa siâp ydyn nhw? Tebyg i bethau bach tanllyd a gedwir mewn bocs.**
   Ateb: Matsys

8. **Beth yw'r sbeis drutaf yn y byd yn ôl pwysau?**
   Ateb: Saffrwm

## 4 Crwydro'r Byd


**Allwch chi enwi'r nodweddion amlwg sydd yn y lluniau hyn?**

1. Taj Mahal
2. Big Ben
3. Pont y Golden Gate
4. Cerflun Rhyddid (Statue of Liberty)
5. Sarn y Cawr (The Giant's Causeway)
6. Tŷ Opera Sydney
7. Sagrada Família
8. Angkor Wat

## 5 Logo-mania

**Yn yr her weledol hon, sawl un o'r cwmnïau rydych chi'n eu nabod wrth eu logos a ddangosir yn rhannol ac mewn du a gwyn?**

1. McDonald's
2. Ferrari
3. Apple
4. Pan Am
5. Starbucks
6. HSBC
7. Blockbuster Video
8. Chanel



## 6 Dywediadau Difyr

**Llanwch y bylchau yn y dywediadau cyfarwydd hyn.**

1. **'Gwlad yn llifeirio o laeth a...'** Ateb: Mêl
2. **'Gweithio fel lladd...'** Ateb: Nadroedd
3. **'Nid chwarae yw chwarae â...'** Ateb: Thân
4. **'Gwneud môr a … o rywbeth'** Ateb: Mynydd
5. **'Yr eithriad sy'n profi'r...'** Ateb: Rheol
6. **'Rhoi'r ffidil yn y...'** Ateb: To
7. **'Tynnu'r gwynt o...rhywun'** Ateb: Hwyliau
8. **'Prynu cath mewn..'** Ateb: Cwd

# Atebion y cwis

## 7 Adolygiad o'r Flwyddyn (2025)

1. **Ym mha ddinas yn y Swistir y cynhaliwyd yr Eurovision Song Contest 2025?**
   Ateb: Basel

2. **Pa wlad yn Ne Asia a lwyddodd i basio Japan yn swyddogol yn 2025 a dod yn drydedd yn y rhestr o economïau mwyaf y byd?**
   Ateb: India

3. **Ble cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2025?**
   Ateb: King Charles III

4. **Pa dîm enillodd ornest Super Bowl LIX ym mis Chwefror 2025, y Philadelphia...?**
   Ateb: Eagles

5. **Yn 2025, rhyddhaodd y Bathdy Brenhinol ddarn arian arbennig ar thema pa gêm fwrdd enwog?**
   Ateb: Monopoly

6. **Pwy oedd Prif Weinidog Cymru drwy gydol 2025?**
   Ateb: Eluned Morgan

7. **Yn 2025, pa wlad yn Sgandinafia oedd y gyntaf yn y byd, yn swyddogol, i fod â mwy o gerbydau trydan na cheir petrol ar y ffordd?**
   Ateb: Norwy

8. **Pa gantores enillodd wobr Albwm y Flwyddyn am y tro cyntaf yn y Grammys 2025 am *Cowboy Carter*?**
   Ateb: Beyoncé

## 8 O'r Beibl neu o Lyfr?

**Ydi'r *union* eiriau hyn yn digwydd yn y Beibl, neu ai teitlau llyfrau ydyn nhw?**

1. **'Saith Pechod marwol'**
   Ateb: Teitl llyfr gan Mihangel Morgan. Dydi'r union eiriau ddim yn digwydd yn y Beibl ond mae Diarhebion 6:16-19 (BWM) yn sôn am 7 peth sy'n ffiaidd gan Dduw

2. **'...nid oes dim newydd dan yr haul.'**
   Answer: Beibl – Pregethwr 1:9

3. **'...a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad.'**
   Ateb: Beibl – 1 Corinthiaid 13:13

4. **'Bedydd Tân'**
   Ateb: Teitl llyfr gan Dyfed Edwards. Mae cyfeiriad yn Actau 2:3 at '...dafodau gwahanedig megis o dân'.

5. **'Eira Gwyn yn Salmon'**
   Ateb: Teitl llyfr gan Dafydd Ifans. Cyfeiriad at Salm 68:14 '...yr oedd hi yn wen fel eira yn Salmon.'

6. **'A newidia ... y llewpard ei frychni?'**
   Ateb: Beibl – Jeremeia 13:23

7. **'Y Stafell Ddirgel'**
   Ateb: Llyfr gan Marion Eames. Cyfeiriad at Mathew 6:6 'Ond tydi, pan weddïech, dos i'th ystafell; ac wedi cau dy ddrws, gweddïa ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg.'

8. **'Halen y ddaear.'**
   Ateb: Beibl – Mathew 5:13 – ond roedd hefyd yn albwm gan y grŵp Injaroc yn 1977.

## 9 Adnabod Anifeiliaid

1. **Pa famal yw'r unig un sy'n gallu hedfan go iawn am dipyn o amser?**
   Ateb: Yr Ystlum

2. **Sawl calon sydd gan octopws?**
   Ateb: Tair

3. **Pa aderyn bychan yw'r unig un sy'n gallu hedfan am yn ôl?**
   Ateb: Aderyn y Si / Sïedn (Hummingbird)

4. **Beth yw'r rhywogaeth fwyaf o siarc sy'n byw yn ein moroedd ar hyn o bryd?**
   Ateb: Siarc Morfilaidd

5. **Ym mha rywogaeth o bysgod, a enwir ar ôl mamal tir, mae'r gwryw, yn hytrach na'r fenyw, yn cario'r wyau ac yn geni'r rhai bach?**
   Ateb: Y Morfarch (Seahorse)

6. **Pa enw arall a roddir i haid o foch?**
   Ateb: Cenfaint

7. **Pa anifail tir sydd â'r beichiogrwydd hiraf, tua 22 mis?**
   Ateb: Eliffant

8. **Pa aderyn Affricanaidd sy'n methu hedfan ac mae ei lygaid yn fwy na'i ymennydd?**
   Ateb: Yr Estrys

# Atebion y cwis

## 10 Gwybodaeth Gyffredinol

1. **Sawl lliw sydd mewn enfys arferol, yn ôl Isaac Newton?**
   Ateb: Saith

2. **Ym mha flwyddyn y syrthiodd Mur Berlin, gan nodi trobwynt ar ddiwedd y Rhyfel Oer?**
   Ateb: 1989

3. **Pa nwy tŷ gwydr mae planhigion yn ei amsugno o'r atmosffer ar gyfer ffotosynthesis?**
   Ateb: Carbon Deuocsid

4. **Pa un yw'r wlad leiaf yn y byd o ran arwynebedd tir?**
   Ateb: Dinas y Fatican

5. **Beth yw'r unig fetel sy'n hylif ar dymheredd ystafell?**
   Ateb: Mercwri

6. **Pa un yw'r unig dalaith yn UDA sy'n cynnwys dim ond ynysoedd?**
   Ateb: Hawaii

7. **Yn y gêm fwrdd glasurol Monopoly, pa un yw'r unig sgwâr ar y bwrdd y gall chwaraewr lanio arno ond nad yw'n cael aros arno?**
   Ateb: Ewch i'r Carchar / Go to Jail

8. **Pa un yw'r unig organ yn y corff dynol sy'n gallu adffurfio ei hunan yn naturiol, hyd yn oed os bydd hyd at 75 y cant ohoni wedi cael ei dynnu?**
   Ateb: Yr afu / Yr iau

## ★ Rownd Bonws **Cwestiynau mewn Caneuon**

**Pwy sy'n enwog am ganu'r caneuon sy'n cynnwys y cwestiynau hyn?**

1. **'...ai am fod nos yn bygwth / Rhoi terfyn ar antur y dydd?'**
   Ateb: Dafydd Iwan – *Ai am fod haul yn machlud...?*

2. **'Wyt ti'n cofio braf oedd nosweithiau'r haf / Pan oeddan ni yn chwarae yng ngolau'r stryd...?'**
   Ateb: Bwncath – *Dos yn dy Flaen*

3. **'How soon is now?'**
   Ateb: The Smiths

4. **'Did you write the book of love, and do you have faith in God above?'**
   Ateb: Don McLean – *American Pie*

5. **'Wyt ti'n dal i weld cysgodion yn y nos?'**
   Ateb: Candelas – *Llwytha'r Gwn*

6. **'Isn't it ironic... don't you think?'**
   Ateb: Alanis Morissette – *Ironic*

7. **'Who's afraid of little old me?'**
   Ateb: Taylor Swift

8. **'Pwy wnaeth y pysgod chwim...?**
   Ateb: Arfon Wyn – *Pwy wnaeth y Sêr Uwchben?*

## Cwestiynau datglwm

**Os byddwch yn wynebu cyffro'r cwestiwn datglwm, gallech gynnwys rhai o gwestiynau'r rownd fonws 'Cwestiynau mewn Caneuon' i'ch helpu i benderfynu pa dîm sy'n ennill, neu gallwch greu'ch cwestiynau'ch hunan. Ddim yn siŵr sut?**

**Cymerwch gip ar ein canllaw ar gyfer creu rhagor o gwestiynau ar y dudalen nesaf**

# Rowndiau ychwanegol



**Eich cwis chi yw hwn ac mae'n gyfle i fod yn ddyfeisgar a chreu eich rownd neu'ch her chi'ch hunan. Mae croeso i chi addasu'r cwis i siwtio'ch noson a'ch cynulleidfa. Dyma rai syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd...**

**Rownd wib – ffaith neu ffug**
Cyflwynwch gyfres o osodiadau, a rhaid i'r timau benderfynu a ydyn nhw'n ffaith neu'n ffug. Mae pob ateb cywir yn ennill pwyntiau, ond gallai atebion anghywir golli pwyntiau.

**Cwestiynau o chwith**
Yn lle gofyn cwestiwn, rhowch yr ateb a gofyn i'r timau feddwl am y cwestiwn cywir. Er enghraifft, gallai'r ateb "Tŵr Eiffel" ddenu'r cwestiwn, "Beth yw'r adeiladwaith enwog ym Mharis a godwyd rhwng 1887 ac 1889?"

**Pwy ydw i?**
Rhowch gyfres o gliwiau am berson neu gymeriad enwog, a gofyn i'r timau ddyfalu pwy ydyw. Gallwch roi un cliw ar y tro, a pho gyflymaf y byddant yn dyfalu, y mwyaf o bwyntiau y byddant yn eu hennill.

**Her anagramau**
Cymysgwch lythrennau enw rhywun enwog, teitl ffilm, neu le, a gofyn i'r timau eu datrys i gael yr ateb cywir.

**Pwy yw pwy mewn llyfrau plant**
Rownd am gymeriadau o lyfrau plant! Gall plant ateb cwestiynau am anturiaethau cymeriadau enwog fel Harry Potter, Sali Mali, neu Matilda. Mae'n berffaith i lyfrbryfed!

**Lliwgarwch:**
Dyma rownd am liwiau! Gallai'r cwestiynau ofyn beth yw lliwiau gwahanol bethau ac anifeiliaid, neu hyd yn oed ddyfalu pwy yw'r enwogion yn ôl eu dewis arferol o liwiau.

**Rownd manion lleol**
**Disgrifiad:** Bydd y rownd hon yn cynnwys cwestiynau am yr ardal lle mae'r noson gwis yn cael ei chynnal. Gallant fod am hanes lleol, tirnodau, pobl nodedig, digwyddiadau, a thraddodiadau neu ffeithiau lleol unigryw. Gall y rownd hon helpu pobl i ddysgu mwy am yr ardal a'i threftadaeth a rhoi elfen bersonol i'r cwis.

**Enghreifftiau o'r cwestiynau**

1. **Hanes lleol**
   **Cwestiwn:** Ym mha flwyddyn y sefydlwyd [enw'r ddinas/dref]?
   **Ateb:** [Blwyddyn]

2. **Tirnodau**
   **Cwestiwn:** Beth yw enw'r cerflun enwog sydd [nodwch ble]?
   **Ateb:** [Enw'r cerflun]

**tearfund.org/quiz**
Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE, United Kingdom
+44 (0)20 3906 3906 info@tearfund.org /Tearfund

Registered office: Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE. Registered in England: 994339. A company limited by guarantee. Registered Charity No. 265464 (England & Wales) Registered Charity No. SC037624 (Scotland)